Cymdeithas y Beibl

# Sul y Beibl

**Cynllun gwers eglwys iau ar Salm 119.129-136**

## Cynllun gwers eglwys iau

### Adnod allweddol

Salm 119.129 – Mae dy ddeddfau di yn rhyfeddol, a dyna pam dw i'n eu cadw nhw.

### Cyflwyniad

Gofynnwch i'r plant pwy sydd orau am ein dysgu sut i wneud rhywbeth yn dda iawn.

Defnyddiwch gyfres o luniau o bobl i weld pwy fydden nhw bob amser yn ufuddhau iddyn nhw ar bwnc penodol.

Gweler Taflen 1: Dysgu

*Mae dy ddeddfau di yn rhyfeddol, a dyna pam dw i'n eu cadw nhw.*

### Gêm

Chwaraewch gêm o '**sownd yn y mwd**'. Yn y gêm hon mae plant yn rhedeg ar hap o gwmpas y lle chwarae ac yn ceisio osgoi cael eu tagio gan arweinydd dynodedig. Unwaith y byddan nhw wedi cael eu tagio, mae angen i'r plant sefyll yn hollol llonydd fel pe baen nhw'n sownd mewn mwd. Gellir eu 'rhyddhau' gan unrhyw un sy'n rhedeg o dan eu breichiau estynedig.

Trafodwch gyda'r plant a oedd eu ffrindiau yn garedig gyda nhw drwy eu hachub o'r mwd.

Cwestiwn: Ar ôl i'n ffrindiau ein hachub ni, wnaethon ni barhau i sefyll yn llonydd ynteu wnaethon ni ddechrau rhedeg eto? Ateb: Unwaith roedden ni'n rhydd, fe wnaethon ni ddechrau rhedeg eto.

*Mae dy ddeddfau di yn rhyfeddol, a dyna pam dw i'n eu cadw nhw.*

### Darllen

**Salm 119.129-136**

Rydyn ni'n argymell defnyddio fersiwn Beibl.net ar gyfer y wers hon.

129 Mae dy ddeddfau di yn rhyfeddol, a dyna pam dw i'n eu cadw nhw.
130 Mae dy eiriau di yn goleuo materion, ac yn rhoi deall i bobl gyffredin.
131 Dw i'n dyheu, dw i'n disgwyl yn geg agored ac yn ysu am dy orchmynion di.
132 Tro ata i, a bydd yn garedig ata i; dyna rwyt ti'n ei wneud i'r rhai sy'n caru dy enw di.
133 Dangos di'r ffordd ymlaen i mi; paid gadael i'r rhai drwg gael y llaw uchaf arna i!
134 Gollwng fi'n rhydd o afael y rhai sy'n fy ngormesu, er mwyn i mi wneud beth rwyt ti'n ei ddweud.
135 Bydd yn garedig at dy was, a dysga dy ddeddfau i mi.
136 Mae'r dagrau yn llifo fel afon gen i am fod pobl ddim yn ufudd i dy ddysgeidiaeth di.

Gwiriwch eu bod nhw'n deall y geiriau anodd:

- Goleuo – ein helpu ni i ddeall
- Dyheu – teimlad dwfn o awydd
- Gormesu – pan nad ydych chi'n teimlo y gallwch chi fod yn chi eich hun

## Trafod a chymhwyso

### Ar gyfer plant iau

- Trafodwch pwy sy'n dysgu pethau rhyfeddol i ni.
- Trowch yn ôl at y lluniau yn y cyflwyniad.
- Helpwch nhw i weld i bwy maen nhw'n ufuddhau yn barod, gan ddefnyddio iaith maen nhw'n gallu ei deall. Brodyr a chwiorydd hŷn sydd wedi eu dysgu nhw sut i liwio, cau careiau eu hesgidiau ac ati.

### Ar gyfer plant hŷn

- Argraffwch Salm 119.129-136 yn ei chyfanrwydd a rhoi uwcholeuwyr iddyn nhw amlygu'r geiriau.
- Siaradwch am beth rydyn ni'n gofyn i Dduw ei wneud i ni yn y Salm (Troi ataf i/trugarhau wrthyf i /fy achub i/fy mendithio i/fy nysgu i)

Ategwch hyn gydag Effesiaid 2.8-9 i ddangos bod Duw o ddifri yn gwneud y pethau hyn ar ein cyfer. 'Haelioni Duw ydy'r unig beth sy'n eich achub chi wrth i chi gredu. Dych chi wedi gwneud dim i haeddu'r peth. Anrheg Duw ydy e! Dych chi'n gallu gwneud dim i'w ennill, felly does dim lle i unrhyw un frolio'.

Siaradwch am yr hyn rydyn ni'n gofyn i Dduw ei rwystro rhag digwydd i ni. Rhowch uwcholeuwyr o liw gwahanol iddyn nhw i farcio'r adnodau. (Cadw fi rhag syrthio/paid â gadael i'r rhai drwg gael y llaw uchaf arna i)

Ategwch hyn gyda Salm 139.5 i ddangos fod Duw yn atal y pethau hyn. Rwyt ti yna o'm blaen i a'r tu ôl i mi, mae dy law di arna i i'm hamddiffyn.

## Taflenni gweithgareddau cofio'r adnod

Salm 119.129

129 Mae dy ddeddfau di yn rhyfeddol, a dyna pam dw i'n eu cadw nhw.

Gweler Taflen 2: Taflen liwio
Gweler Taflen 3: Gweithgaredd chwilair
Gweler Taflen 4: Gweithgaredd dyfalu'r geiriau (ateb tudalen 1: Mae dy ddeddfau di yn rhyfeddol, ac ateb tudalen 2: dyna pam dw i'n eu cadw nhw)
Gweler Taflen 5: Gweithgaredd datrys cod (ateb: Mae dy ddeddfau di yn rhyfeddol, a dyna pam dw i'n eu cadw nhw)

## Syniadau eraill

Os ydych chi'n meddwl y buasai'r plant dan eich gofal yn ffafrio dysgu am straeon Iesu, yna mae gennym adnoddau ar gyfer hynny hefyd.

### Stori Syndod y Syndodau

Mae hwn yn rhoi sylw i'r disgyblion ar y ffordd i Emaus ar ôl marwolaeth ac atgyfodiad Iesu. Mae llyfr stori, fideo wedi ei animeiddio, cwis a llwybr antur.
Cymraeg: biblesociety.org.uk/products/bib-000369/
Saesneg: biblesociety.org.uk/products/bib000373/

### *The Super Cool Story of Jesus*

Mae'r llyfr hwn yn cynnwys detholiad o ddamhegion a ddywedodd Iesu. Mae llyfr stori, fideo wedi ei animeiddio, llwybr antur a thaflenni lliwio.
biblesociety.org.uk/landing/the-super-cool-story-of-jesus-video/

### Tri Ffrind a Dyn y Gwyrthiau

Dyma ein llyfr diweddaraf, sy'n cwmpasu marwolaeth ac atgyfodiad Iesu. Mae yna lyfr stori, fideo wedi ei hanimeiddio, taflenni lliwio a sgript ar gyfer gwasanaeth pob oedran.
Cymraeg: biblesociety.org.uk/get-involved/easter/
Saesneg: biblesociety.org.uk/products/bib-000434/

Cymdeithas y Beibl